**Cyfarfod o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr**

**MS Teams**

**Dydd Iau 18 Ionawr 2024, 09:30 - 11:30**

## Cofnodion / Camau Gweithredu

Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Andy Pithouse, Cynghorydd Arbennig i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Alwyn Jones, Cadeirydd
Denise Moultrie, Llywodraeth Cymru
Taryn Stephens, Llywodraeth Cymru
Mark Pruce, Llywodraeth Cymru
Bobbie-Jo Haaroff, Gofalwr di-dâl
Jayne Newman, Gofalwr di-dâl
Mico Zenati-Parsons, Gofalwr Ifanc a'r Bwrdd Cynghori Gofalwyr Ifanc
Rachel Clement, Plant yng Nghymru
Kate Cubbage, Cyfarwyddwr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr
Kath Proudfoot, Rhwydwaith Dysgu a Gwella Swyddogion Gofalwyr
Rachel Williams, y Gynghrair Gofal
Grace Coppock, Fforwm Cymru Gyfan
David Prichard, Gofal Cymdeithasol Cymru
Valerie Billingham, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn
Vanessa Webb, Prifysgol Abertawe
Jenny Oliver, Pennaeth Profiad Pobl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
David Watkins, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Naheed Ashraf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Pennie Muir, Cymorth Prosiectau Rhanbarthol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Angela Hughes, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Avril Bracey, Cyngor Sir Caerfyrddin
Amy Hawkins, Cyngor Dinas Abertawe
Alyson Hoskins, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Naomi Harper, Cyngor Sir y Fflint
Iain McMillan, Cyngor Bro Morgannwg
Y Cyng. Jane Tremlett, Cyngor Sir Caerfyrddin

## Ymddiheuriadau

Claire Morgan, Gofalwyr Cymru
Kate Young, Fforwm Cymru Gyfan
Jon Day, Gofal Cymdeithasol Cymru
Sean O'Neill, Plant yng Nghymru
Victoria Lloyd, Age Cymru
Elizabeth Flowers, Swyddfa'r Comisiynydd Plant
Kim Dolphin, Rhwydwaith Dysgu a Gwella Swyddogion Gofalwyr
Marie Davies, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Claire Roche, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Ffion Johnson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## 1. Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan gynnwys y gofalwr ifanc sydd newydd ei benodi, Mico Zenati-Parsons.

## Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Siaradodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol am ei phresenoldeb mewn digwyddiadau diweddar i ddathlu Diwrnod Hawliau Gofalwyr ar 23 Tachwedd, gan gynnwys pa mor bwysig oedd hi iddi glywed gan ofalwyr di-dâl yn y digwyddiad ar-lein a drefnwyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.

Hefyd, soniodd y Dirprwy Weinidog am ei phresenoldeb yng Nghynhadledd Gofalwyr Cymru a Chynulliad Gofalwyr Di-dâl Caerdydd a'r Fro, yn ogystal â chwrdd â gofalwyr di-dâl sydd wedi elwa o'r Gronfa Seibiannau Byr a'r buddion yr oeddent wedi eu cael o hynny.

Croesawodd y Dirprwy Weinidog Mico Zenati-Parsons fel aelod newydd o Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Ochr yn ochr â Bobbie-Jo Haaroff a Jayne Newman, bydd eu profiad byw yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i waith y grŵp. Mae Mico hefyd yn aelod o'r Bwrdd Cynghori Gofalwyr Ifanc, ac roedd y Dirprwy Weinidog yn falch o weld cysylltiadau'n cael eu creu rhwng y grwpiau hyn.

Nododd y Dirprwy Weinidog y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol mewn perthynas â'r cerdyn adnabod i ofalwyr ifanc. Cynhaliwyd cyfarfodydd i ganfod yr hyn sydd wedi gweithio'n dda ac i ddeall rhai o'r materion sydd wedi codi yn sgil y broses gyflwyno, a sut i gydweithio i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc mewn addysg.

Nodwyd y nifer sy'n manteisio ar y Gronfa Seibiannau Byr a'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr a oruchwylir gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.

Gadawodd y Dirprwy Weinidog y cyfarfod.

## 2. Camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ar 25 Medi

*Adborth gan y grŵp*

Nododd un aelod o'r grŵp nad oedd pob awdurdod lleol yn cymryd rhan yn yr Adolygiad Cyflym o hawliau gofalwyr a gynhaliwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, gan fod dull samplu wedi cael ei ddefnyddio. Roedd yr aelod o'r grŵp yn teimlo nad oedd yr adroddiad yn gwbl gynrychiadol, ac roedd o'r farn y dylai byrddau iechyd fod wedi cymryd rhan hefyd.

Swyddogion Llywodraeth Cymru i roi adborth ar ddyddiad yn nes ymlaen o ran y pwynt gweithredu ar gysylltu â'r adran Addysg i sicrhau bod barn rhieni sy'n ofalwyr yn cael ei chynrychioli a'i hystyried yn y grwpiau perthnasol.

Heriodd aelod o'r grŵp fod y term 'anodd eu cyrraedd' yn cyfeirio at gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig yn y cofnodion a gyhoeddwyd ar gyfer cyfarfod mis Medi 2023.

Derbyniodd y Cadeirydd hyn, a chytunodd y grŵp na fyddai hyn yn cael ei ddefnyddio fel disgrifiad priodol.

**Pwynt gweithredu:**
**Mae cam gweithredu o'r cyfarfod diwethaf wedi cael ei gario drosodd. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn codi hyn gyda chydweithwyr yn adran Addysg Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod barn rhieni sy'n ofalwyr yn cael ei chynrychioli a'i hystyried yn y grwpiau perthnasol.**

## 3. Diweddariadau a chwestiynau'r Gynghrair Gofalwyr

**Kate Cubbage**

Dywedodd Kate fod adroddiadau *State of Caring* 2023 Carers UK wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer Iechyd, Cyllid a Chyflogaeth.

Cyflwr Gofalu 2023: Effaith gofalu ar iechyd yng Nghymru | Carers UK

Cyflwr Gofalu yng Nghymru: Effaith gofalu ar gyllid yng Nghymru | Carers UK

Hawliau cyflogaeth gofalwyr yng Nghymru heddiw, yfory ac yn y dyfodol. | Carers UK

Tynnwyd sylw at Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr ar 23 Tachwedd, a chadarnhawyd bod yr arolwg *'Track the Act*' bellach ar gael ar wefan Gofalwyr Cymru. Bydd Gofalwyr Cymru hefyd yn cynnal ei Gynulliad Gofalwyr ar 19 Chwefror.

## 4. Diweddariad o Gyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gynhaliwyd ar 9 Ionawr

**Denise Moultrie**

Cafwyd trafodaeth eang ar gasgliadau adroddiad yr Adolygiad Cyflym, gan fapio casgliadau yn erbyn blaenoriaethau presennol y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr. Y dasg nawr yw cytuno ar ffocws penodol ar gyfer gwaith y grŵp Gorchwyl a Gorffen. Awgrymir y gallai'r ffocws cychwynnol fod ar waith cenedlaethol a wneir ar asesiadau o anghenion gofalwyr.

Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith ei bod yn hanfodol rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth amserol i ofalwyr di-dâl ac y gellid ystyried hyn hefyd fel rhan o waith y grŵp.

Byddai canlyniadau o'r drafodaeth heddiw ar yr Adolygiad Cyflym yn cael eu hymgorffori hefyd.

Cafodd y grŵp ei atgoffa gan un o'i aelodau o bwysigrwydd cyd-gynhyrchu a'r angen i siarad â'r bobl fwyaf priodol. Atgoffwyd y grŵp o bwysigrwydd ystyried pobl o bob cymuned wrth ymgymryd â'i waith.

Bydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen yn adrodd i Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Bydd diweddariadau tri misol yn cael eu darparu a'u rhannu cyn cyfarfodydd. Cytunwyd bod angen i waith y grŵp barhau i fod yn gryno. Un sylw a gafwyd oedd yr angen i fod yn ymwybodol o derminoleg a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol wrth gyflwyno Asesiadau o Anghenion Gofalwyr, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch ynghylch yr hyn y mae'n ei olygu.

## 5. <u>Diweddariadau a chwestiynau Llywodraeth Cymru</u>

**Denise Moultrie**

<u>Cardiau adnabod i ofalwyr ifanc</u>

Nodwyd bod rhai problemau wedi codi wrth ymwreiddio'r defnydd o gardiau adnabod i ofalwr ifanc. O ganlyniad, cynhaliwyd tri chyfarfod gyda nifer o awdurdodau lleol i edrych ar feysydd o arfer da ac i ddeall yr heriau sy'n gysylltiedig â rhoi'r cerdyn ar waith. Codwyd hyn hefyd yn y Bwrdd Cynghori Gofalwyr Ifanc. Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn cefnogi'r gwaith hwn. Bydd diweddariad yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf.

Roedd trafodaeth y grŵp yn cydnabod nad yw rhai gofalwyr ifanc yn dymuno cael eu hadnabod, gan y gallent fod yn bryderus am ganfyddiadau posibl, stigmateiddio, a materion sy'n gysylltiedig ag ymddiried yn y rheini sydd mewn awdurdod. Cytunodd y grŵp ei bod yn dda clywed adborth o safbwynt gofalwr ifanc.

Cyfeiriodd y grŵp yn ôl at y drafodaeth flaenorol ar asesiadau o anghenion gofalwyr, gan nodi'r ansicrwydd a oedd gan rai gofalwyr ynghylch yr hyn sydd i'w ddisgwyl o asesiad. Gellid lleddfu'r pryder hwn drwy gydnabod pa mor bwysig yw hi bod gweithwyr proffesiynol yn cyfathrebu ymlaen llaw am y broses hon.

Nodwyd yr amrywiaeth yn y gwaith ar gyfer gofalwyr ifanc sy'n digwydd ar draws awdurdodau lleol. Cytunodd y grŵp y dylai cydnabod a dathlu cynhwysiant, cydraddoldeb, ac amrywiaeth ar gyfer pawb fod yn rhan hanfodol o'n gwaith.

<u>Gŵyl Gofalwyr Ifanc</u>

Cynhaliwyd yr Ŵyl Gofalwyr Ifanc ym mis Awst gyda 350 o ofalwyr ifanc yn ei mynychu dros gyfnod o dridiau. Cafodd y digwyddiad dderbyniad da, a chafodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol brofiad cadarnhaol yn ystod ei hymweliad. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio cefnogi gŵyl 2024.

<u>Ymwybyddiaeth Gofalwyr</u>

Cynhaliwyd trafodaethau gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Gofalwyr Cymru am eu cynllun cenedlaethol a sut y byddant yn ei gyflwyno'r flwyddyn nesaf. Mae

swyddogion yn Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnal gweithdy i ystyried y maes gwaith hwn o safbwynt gwyddor ymddygiadol.

Gofalwyr hŷn

Cafwyd trafodaeth hefyd gydag Age Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru am ffocws y ffrwd waith hon ar gyfer 2024-2025. Gallai hyn gynnwys cymorth ychwanegol i feddygfeydd i nodi a chyfeirio gofalwyr di-dâl.

Seibiannau Byr/ Cronfa Cymorth i Ofalwyr

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cyflwyno eu hadroddiadau chwe mis ar y cynllun seibiannau byr.

Gofynnodd un aelod o'r grŵp a oedd yr ymgynghoriad Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 wedi cael ei gylchredeg ymhlith yr aelodau. Cadarnhaodd y swyddogion nad oedd hynny wedi digwydd.

**Pwynt Gweithredu: Llywodraeth Cymru i wneud ymholiadau ynghylch hyn.**

Codwyd mater yr £1 miliwn ar gyfer cefnogi gofalwyr ar adeg derbyn a rhyddhau'r person sy'n derbyn gofal. Cadarnhawyd bod y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, sef y ffrwd ariannu ar gyfer y gwaith hwn, ar waith am bum mlynedd (2022-2027).

## 6. Cylch Gorchwyl Diwygiedig

Roedd y cylch gorchwyl diwygiedig wedi'i gylchredeg ymlaen llaw er mwyn i'r grŵp ei drafod heddiw.

Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf am drafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ar y ddeiliadaeth ar gyfer rôl y Cadeirydd, sef cyfnod o dair blynedd. O ganlyniad, byddwn yn cynllunio ar gyfer olynydd o fis Mawrth 2025, a bod y cylch gorchwyl diwygiedig yn cynnwys swydd newydd yr Is-gadeirydd. Yr uchelgais fydd sicrhau cynrychiolaeth o ofalwyr proffesiynol a gofalwyr di-dâl ar draws rolau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Cododd un aelod yr angen am eglurder ynghylch rôl gofalwyr di-dâl ar Grŵp Cynghori'r Gweinidog a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

**Pwynt gweithredu:**
**Bydd Cylch Gorchwyl diwygiedig yn cael ei gylchredeg eto ymhlith aelodau'r grŵp cyn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.**

## 7. Cyfarfod wyneb yn wyneb

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb, o bosibl ym mis Mehefin. Byddai hon yn sesiwn hirach i drafod blaenoriaethau yn fanylach. Roedd y grŵp yn gytûn, ond hefyd yn ymwybodol o amseriadau a phwysau ymrwymiadau ar ofalwyr di-dâl.

**Pwynt gweithredu:**
**Llywodraeth Cymru i ystyried trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb ym mis Mehefin**

## 8. Eitemau ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf

Bydd unrhyw eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth yn cael eu hanfon ymlaen at swyddogion Llywodraeth Cymru.

## 9. Unrhyw fater arall

Ni nodwyd unrhyw fater arall.

## 10. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Mawrth.